**CYNGOR CAERDYDD**

COFNODION

# CYFARFOD Y CABINET: 14 MEHEFIN 2018

Aelodau Cabinet yn Bresennol: Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)
Y Cynghorydd Peter Bradbury
Y Cynghorydd Susan Elsmore
Y Cynghorydd Russell Goodway
Y Cynghorydd Graham Hinchey
Y Cynghorydd Sarah Merry
Y Cynghorydd Michael Michael
Y Cynghorydd Lynda Thorne
Y Cynghorydd Christopher Weaver
Y Cynghorydd Caro Wild

Gwylwyr: Y Cynghorydd Joe Boyle
Y Cynghorydd Keith Parry
Y Cynghorydd Adrian Robson

Swyddogion: Paul Orders, y Prif Weithredwr
Christine Salter, Swyddog Adran 151
Davina Fiore y Swyddog Monitro
Joanne Watkins, Swyddfa'r Cabinet

Ymddiheuriadau:

1. **COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR 17 MAI 2018**

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2018 yn cael eu cymeradwyo.

2. **DERBYN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A PHERFFORMIAD O'R TEITL 'RHEOLI'R YSTAD O DAN FODEL LANDLORD CORFFORAETHOL'**

Cyflwynodd y Cynghorydd Boyle, Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu ar Berfformiad o'r enw 'Rheoli'r Ystâd o dan Fodel Landlord Corfforaethol'. Roedd 11 o ganfyddiadau allweddol a 7 o argymhellion yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:** Bod adroddiad y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad o'r enw 'Rheoli'r Ystâd dan Fodel Landlord Corfforaethol' yn cael ei dderbyn a bod ymateb yn cael ei roi erbyn mis Hydref 2018

## 3 SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017-18

Ystyriodd y Cabinet yr Adolygiad Blynyddol Safonau'r Iaith Cymraeg 2017-18 a roddodd wybodaeth fanwl sy'n perthyn i Gwynion, sgiliau Iaith Gymraeg Cyflogeion, yr Iaith Gymraeg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a Swyddi a hysbysebwyd – gofynion yr Iaith Gymraeg. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog

**PENDERFYNWYD:** bod Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017-18 (sef Atodlen A yr adroddiad) yn cael ei gymeradwyo i'w ystyried gan y Cyngor cyn cael ei gyhoeddi yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) **.**

## CAERDYDD DWYIEITHOG - CYNGOR DWYIEITHOG: HYRWYDDO A DEFNYDDIO CYMRAEG YN Y CYNGOR

Ystyriodd y Cabinet y polisi Caerdydd Ddwyieithog a ddisgrifiodd weledigaeth y Cyngor i greu sefydliad dwyieithog sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn esiampl dda i gyflogwyr eraill yn y ddinas. Nod y polisi oedd datblygu defnydd ffurfiol a chymdeithasol ar Gymraeg ymhlith gweithlu'r Cyngor trwy gyfleoedd dysgu a chymdeithasol rheolaidd, a mwy o gyfranogiad mewn amrywiaeth o rwydweithiau a digwyddiadau iaith ffurfiol ac anffurfiol.

**PENDERFYNWYD:** bod y polisi ar hyrwyddo a defnyddio Cymraeg yn y Cyngor (Atodiad A yr adroddiad) yn cael ei gymeradwyo yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg) (Cymru) 2011).

## 5 FFERM SOLAR FFORDD LAMBY

*Ni fydd Atodiadau yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Cabinet yr achos busnes manwl ar gyfer fferm solar yn Lamby Way, yn seiliedig ar gapasiti o 7.5 mw. Adroddwyd y daethpwyd i fargen amlinellol gyda sefydliad i gymryd 4.5mw o gapasiti o'r Fferm Solar dros gyfnod o ugain mlynedd a helpodd hyn hyfywedd y project. Cynigwyd y byddai cynnydd y project i'r cam nesaf yn cynnwys cyflwyno cais cynllunio a chychwyn proses gaffael ar gyfer contractwr dylunio ac adeiladu, a chontractwr gweithredu a chynnal a chadw ar gyfer y cynllun. Byddai costiadau terfynol ar gyfer y cynllun, yn seiliedig ar ganlyniad y broses gaffael ffurfiol yn cael eu dwyn gerbron y Cabinet i'w cymeradwyo'n derfynol.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r Achos Busnes a'r Dyraniad Buddsoddi i Arbed a rhoi'r cynllun cyflawni ar waith

## 6 DIWEDDARIAD AR DIPIO'N ANGHYFREITHLON

Ystyriwyd adroddiad sy'n amlinellu cynigion ar gyfer ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â thipio'n anghyfreithlon trwy fabwysiadu technolegau a phwerau

deddfwriaethol newydd gan y Cabinet. Cynigwyd y defnyddid pwerau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Awdurdodau osod tâl cosb sefydlog ar gyfer tipio'n anghyfreithlon. At hynny, amlinellodd yr adroddiad fanylion o fentrau Teledu Cylch Cyfyng er mwyn helpu gyda chanfod tipwyr anghyfreithlon a manylion o ymgyrch addysg a gynllunnir.

**PENDERFYNWYD:** bod

1. estyn pwerau'r Cyngor i gefnogi'r gwaith o Ddiwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a chymeradwyo Rheoliadau Gwaredu Gwastraff yn Anawdurdodedig (Cosbau Sefydlog) (Cymru) 2017.

2. cymeradwyo'r penderfyniad i osod swm y HCB am dipio anghyfreithlon ar raddfa fach ar £400 heb gynllun talu cynnar

## 7. AIL-GAFFAEL FFRAMWAITH ADEILADU CYDWEITHREDOL ADEILADAU YSGOL AC ADEILADAU CYHOEDDUS (SEWSCAP3) DE-DDWYRAIN CYMRU

Adroddwyd bod y Fframwaith Adeiladu Ysgolion ac Adeiladau Cyhoeddus De-ddwyrain Cymru (SEWSCAP2) ar fin dod i ben ar 31 Mawrth ac felly gofynnwyd am awdurdod i ail-gaffael y fframwaith er mwyn cael cerbyd caffael sy'n cydymffurfio ar gyfer Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru (Band B) yn dechrau o fis Ebrill 2019.

**PENDERFYNWYD: bod**

1. cytuno ar ddechrau'r gwaith o ail-gaffael Fframwaith Adeiladu Cydweithrediadol (Sewscap3) Adeiladau Cyhoeddus ac Ysgolion, De-ddwyrain Cymru (fel y nodir yn yr adroddiad) a

2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Moderneiddio, i gyflawni'r holl agweddau ar gaffael , (gan gynnwys pennu'r fethodoleg werthuso, ac ychwanegu contractwyr llwyddiannus at y fframwaith) ac ar ôl hynny delio gyda gweithredu trefniadau'r fframwaith, gan gynnwys unrhyw faterion ategol sy'n gysylltiedig.

## 8.POLISI TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD

Ystyriodd y Cabinet y Polisi Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a ddiweddarwyd a ddisgrifiodd sut y byddai'r Cyngor yn ymdrin â'i gyfrifoldebau mewn perthynas â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, p'un ai a yw wedi'i geisio ar y Cyngor neu o'r tu fewn iddo. Symleiddiodd ac eglurodd fersiwn ddiwygiedig y polisi y broses i'w dilyn a rhoddodd weithdrefnau i'w dilyn i'r swyddogion, er mwyn sicrhau y glynir at ymagwedd gyson bob amser.

**PENDERFYNWYD:** bod y Polisi Twyll, Llwgrwobrwyaeth a Llygredd yn cael ei gytuno

### 9. STRATEGAETH TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG 2018 - 2023

Ystyriodd y Cabinet Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023. Cydnabu'r strategaeth y gall unrhyw un (menywod, dynion, plant a phobl ifanc) gael profiad o drais yn erbyn menywod a thrais rhywiol a effeithir arnynt, a cheisiodd mynd i'r afael â thrais a cham-drin a gyfeirir tuag at fenywod, dynion merched a bechgyn a cham-drin a gyflawnir gan ddynion a menywod, a chydnabu y gall ddigwydd mewn unrhyw berthynas, ni waeth am ryw. Oedran, ethnigrwydd, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, incwm, daearyddiaeth neu ffordd o fyw. Fodd bynnag, cydnabu hefyd yr effeithir yn anghymesur ar fenywod a merched gan gam-drin domestig, trais a thrais rhywiol, ecsploetio rhywiol, (gan gynnwys trwy'r diwydiant rhyw), caethwasiaeth fodern, priodas dan orfodaeth, anffurfio organau cenhedlu benywod, ecsploetio a cham-drin rhywiol plant, stelcian ac aflonyddu rhywiol. Adroddwyd bod nifer o bartneriaid allweddol wedi cymryd rhan mewn datblygu strategaeth ac y bu'r ymgynghoriad yn amrywio'n eang.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo Strategaeth Ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023 (fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad)